O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

**2017 Rhif 538 (Cy. 118)**

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Slipffyrdd rhwng Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy a Chyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Mawrth 2017* |
| *Yn dod i rym* | *4 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafford Llundain – De Cymru (yr M4) ("y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Ebrill 2017 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Slipffyrdd rhwng Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy a Chyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys a mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 4 Ebrill 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r draffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 23a (Magwyr) yn Sir Fynwy a Chyffordd 28 (Parc Tredegar) yn Ninas Casnewydd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Mawrth 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23a (Magwyr).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23a (Magwyr).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23a (Magwyr).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23a (Magwyr).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24 (Coldra).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24 (Coldra).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra), gan gynnwys ffordd gyswllt ‘hamburger’ yr A449.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25 (Caerllion).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 25 (Caerllion).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 25a (Pont Afon Wysg).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25a (Pont Afon Wysg).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 27 (High Cross).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 27 (High Cross).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 27 (High Cross).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 27 (High Cross).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar).